

Prifysgol Bangor  
**COFNODION PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL**

**Cyfarfod:** 6 Gorffennaf 2020

**Presennol:** Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr S Griffith, Mr A Jones, Mr W Jones, Yr Athro P Mullins, Dr K Mundy, Mr G Parry, Mrs R Parry, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mrs J Roberts, Dr G Robinson, Ms M Rowlands, Yr Athro P Spencer, Mrs E Parry Williams, Mr M Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

**Ymddiheuriadau:** Mrs T Hibbert, Mr L Wiegand, Mr H Williams, Dr J Latchford, Mrs G Hine, Mr T Williams

**581. Cofnodion**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 11 Mawrth 2020.

**582. Materion yn Codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**583. Adroddiad gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau**

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod unwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitem allweddol ganlynol, ynghyd ag eraill i'w codi fel eitemau ar agenda'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch:

- i. *Ystadegau:* Oherwydd bod staff yn gweithio gartref a bod mwy na 300 o staff ar 'ffyrlo', bu gostyngiad sylweddol yn yr adroddiadau o absenoldebau salwch, ac ni adroddwyd am unrhyw ddamweiniau na digwyddiadau ers dechrau'r cyfnod 'clo'. Mae hyn yn digwydd ar draws y sector prifysgolion.  
Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r angen i adrodd am absenoldeb salwch a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael ei atgyfnerthu trwy'r Bwletin Staff ac yn uniongyrchol trwy Benaethiaid Ysgolion / Gwasanaethau Proffesiynol.

**584. Adroddiad Covid-19**

Darparwyd crynodeb o'r camau rheoli a lliniaru a'r datblygiadau cyfredol mewn perthynas â'r pandemig a'r sefyllfa fel y mae'n datblygu. Nodwyd y canlynol:

- i. Mae Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol wedi sefydlu tri is-grŵp: Y Grŵp Dychwelyd i'r Campws, Y Grŵp Dychwelyd i Ymchwil a'r Grŵp Addysgu a Dysgu. Mae pob Grŵp yn ystyried trefniadau ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2020/2021 yn ei chyfanrwydd.
- ii. Mae'r Grŵp Dychwelyd i'r Campws yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Gwasanaeth Proffesiynol, Undeb y Myfyrwyr ac o undeb UCU, a'i dasg yw asesu a chefnogi sut y gall staff a myfyrwyr ddychwelyd i'r campws yn ddiogel a sut y gellir cyflawni disgwyliadau'r Grŵp Ymchwil a'r Grŵp Addysgu a Dysgu yn ddiogel.
- iii. Hyd yn hyn, mae'r Grŵp Ymchwil wedi nodi nifer o brojectau y maent am iddynt ailgychwyn yn fuan. Ar ôl eu nodi, bydd cydweithredu rhwng y Gwasanaethau Eiddo a Champws, Iechyd a Diogelwch a phrif ddefnyddwyr yr adeilad i sicrhau bod camau rheoli COVID-19 priodol ar waith ar ffurf asesiad risg adeilad.

- iv. Mae'r Grŵp Addysgu a Dysgu, yn ogystal â sawl agwedd arall, yn nodi pa addysgu y gellir ei ddarparu a sut y gellir cyflawni hynny'n unol â gofynion COVID-19. Mae hyn yn cynnwys y gallu o ran addysgu wyneb yn wyneb a sut i alluogi lleoliadau / profiad gwaith i fyfyrwyr.
- v. Mae Is-grŵp 'Profi, Tracio ac Amddiffyn a Gorchuddion Wyneb' sy'n adrodd i'r Grŵp Dychwelyd i'r Campws, hefyd wedi'i sefydlu. Mae gwaith yr Is-grŵp yn cynnwys:
  - Trafodaethau parhaus gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar sut y gall y Brifysgol gefnogi'r strategaeth Profi, Tracio ac Amddiffyn ar gyfer staff a myfyrwyr.
  - Sefydlu protocolau dwysáu ac ymateb 'os a phryd' y bydd unigolion yn adrodd bod COVID-19 arnynt.
  - Ystyried risgiau, buddion ac agweddau o ran argymell neu ei gwneud yn ofynnol i staff a myfyrwyr wisgo gorchuddion wyneb mewn adeiladau, a phryd y gallai hynny fod yn briodol.
- vi. Mae Lleoliadau Nyrsio Blwyddyn 2 a 3 wedi ailgychwyn. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch lleoliadau 'gofynnol' eraill megis Lleoliadau Ysgol ar gyfer myfyrwyr addysg.

#### **585. Asesiadau Risg**

Darparwyd crynodeb o'r Asesiad Risg 'Ail-agor y Brifysgol yn ystod COVID-19'.

Mae'r Asesiad Risg yn ddogfen statudol y mae'n rhaid i bob cyflogwr ei pharatoi cyn ailgychwyn eu gweithgarwch. Bydd yr Asesiad Risg Ail-agor yn disodli'r Asesiad Risg 'Trefniadau Rheoli mewn Ymateb i'r Coronafeirws (Covid-19): Lefel Prifysgol', a ddaeth i rym ar 14 Chwefror 2020 ac sydd wedi bod yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ers hynny.

- i. I ategu'r Asesiad Risg Ail-agor ceir Asesiadau Risg i Adeiladu Unigol hefyd. Rhaid adolygu Asesiadau Risg ar gyfer Gweithgareddau Penodol hefyd cyn y gall y gweithgareddau hynny ail-ddechrau.
- ii. Ni chaiff unrhyw adeilad ail-agor oni bai bod y Gwasanaeth Eiddo a Champws wedi awdurdodi hynny. Byddai hynny'n golygu cael asesiad gan y Gwasanaeth Eiddo a Champws, Iechyd a Diogelwch a defnyddwyr yr adeilad i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel i'w ail-feddiannu a bod camau rheoli COVID-19 addas ar waith.
- iii. Mae'r cyfyngiad ar 'deithio at ddibenion busnes' yn y Deyrnas Unedig wedi'i godi'n rhannol. Bydd hyn yn caniatáu i waith maes gwyddonol, sydd wedi ei awdurdodi ac y gellir ei wneud yn ddiogel yn unol â chamau rheoli COVID-19, fynd rhagddo..
- iv. Mae teithio dramor at ddibenion busnes y Brifysgol yn parhau i fod wedi'i wahardd.

#### **586. Gweithio Gartref yn ystod Pandemig COVID-19**

Darparwyd crynodeb o'r papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar y risgiau iechyd a diogelwch posibl i staff sy'n gweithio gartref a'r camau a gymerwyd gan y Brifysgol.

Golygodd cyngor y Llywodraeth ar ddechrau'r pandemig Covid-19 fod gwaith ar y safle wedi ei atal (oni bai bod staff yn darparu gwasanaethau hanfodol) ddiwedd Mawrth 2020. Golygodd hyn fod tua 1,300 o staff yn gweithio o'u cartrefi eu hunain yn hytrach nag o'u swyddfa ar y safle.

Mae'r papur yn crynhoi'r camau a gymerwyd hyd yma a'r camau pellach sydd eu hangen i roi sylw i'r risgiau iechyd a diogelwch posibl i staff sy'n gweithio gartref. Rhennir y papur yn ddau gategori, sef gweithio gyda chyfarpar sgrin arddangos a lles meddyliol.

Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Mae canllawiau i staff ynglŷn â gweithio gartref a materion yn ymwneud â chyfarpar sgrin arddangos a lles meddyliol wedi bod yn eu lle fel rhan o'r Cwestiynau Cyffredin am y Coronafeirws ar y wefan ers wythnos gyntaf y cyfnod clo.
- ii. Mae adran Lles wedi'i sefydlu ar dudalennau gwe'r adran adnoddau dynol i ddarparu gwybodaeth am gymorth gyda lles meddyliol ac i sôn am yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys Care First, sy'n darparu gwasanaethau cymorth i weithwyr y brifysgol ac adnoddau gan rai o arbenigwyr y brifysgol ei hun ar les meddyliol.
- iii. Ar ddechrau'r cyfnod clo, cynghorwyd staff gan y Gwasanaethau TG i fynd â'u monitor adref gyda nhw os oedd angen a darparwyd cyfrifiadur personol er mwyn gweithio gartref hefyd.
- iv. Ers 22 Mehefin caniatwyd i staff archebu slot i ymweld â'u swyddfa (neu os na allent, i archwilio'r opsiynau gyda'u rheolwr llinell) i nôl eitemau megis cadeiriau, a deunyddiau swyddfa.
- v. Mae'r cyfathrebu wedi parhau gyda staff sydd ar ffyrlo.

*Camau Pellach:*

- vi. Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio desgiau dros dro ysgafn wedi eu gwneud o gardbord, y gellir ei danfon i gyfeiriad cartref pobl.
- vii. Ym mis Medi 2020, gofynnir i bob aelod o staff sy'n gweithio gyda chyfrifiaduron, ni waeth beth yw eu lleoliad gwaith, i lenwi'r ffurflen hunanasesu Cyfarpar Sgrin Arddangos ar-lein.
- viii. Mae holiadur cymorth yn cael ei ddatblygu i lywio trafodaethau rhwng rheolwyr llinell a'u staff. Bydd hyn yn asesu a yw gweithio gartref yn ymarferol yn y tymor hir ac yn nodi sut y gellir darparu cefnogaeth ychwanegol.
- ix. Mae Polisi Gweithio Gartref, a fydd yn darparu ac yn ffurfioli camau rheoli a chefnogaeth ar gyfer gweithio gartref, yn cael ei ddatblygu.
- x. Mae Asesiad Risg Gweithio Gartref yn cael ei ddatblygu, i roi arweiniad i reolwyr llinell wrth drafod arferion gweithio gartref yn rheolaidd trwy drefniant ffurfiol.

Yn dilyn trafodaeth, argymhellwyd y dylid tynnu sylw at yr adnoddau sydd ar gael trwy'r Newyddlen Staff ac yn uniongyrchol trwy'r Colegau, Ysgolion a Gwasanaethau.

## **587. Unrhyw Fater Arall**

- i. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd yn sgil y gwaith sy'n mynd rhagddo ac sydd wedi bod yn mynd rhagddo i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles staff a myfyrwyr.

**Trefnwyd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch fel a ganlyn:**

4 Tachwedd 2020, 2pm, Ystafell Gynhadledd 3, Y Teras

10 Mawrth 2021, 2pm, Ystafell Gynhadledd 3, Y Teras

2 Mehefin 2021, 2pm, Ystafell Gynhadledd 3, Y Teras